Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 14.03.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# CYFLOGAETH: Rhaglen 'Age at Work'

Mae Busnes yn y Gymuned Cymru mewn partneriaeth ag Age Cymru yn darparu'r Rhaglen 'Age at Work', sy'n ceisio annog a chefnogi busnesau i fod yn fwy cynhwysol o ran cadw, ailhyfforddi a recriwtio gweithwyr hŷn; codi ymwybyddiaeth o effaith gweithlu sy'n heneiddio a chefnogi mwy o weithwyr hŷn (50+) i aros yn y gwaith neu ddychwelyd i'r gwaith. Mae gwybodaeth am y rhaglen am ddim 'Age at Work' ar gael ar:

https://www.bitcni.org.uk/age-at-work-wales/

# AMGYLCHEDD: Gwanwyn Glân Cymru 2023 a Diwrnod Ailgylchu Byd-eang

Cynhelir Gwanwyn Glân Cymru 2023 o 17 Mawrth hyd at 2 Ebrill 2023, gyda Cadwch Cymru'n Daclus yn gobeithio ysbrydoli miloedd o #ArwyrSbwriel ar draws Cymru i ddod ynghyd i gasglu a gwaredu sbwriel yn ddiogel o'n strydoedd, mannau gwyrdd a'n traethau. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://keepwalestidy.cymru/caru-cymru/cy/gwanwyn-glan-cymru/

Cynhelir y Diwrnod Ailgylchu Byd-eang ar 18 Mawrth 2023, yn dangos sut mae ailgylchu yn cyfrannu at blaned amgylcheddol sefydlog a dyfodol mwy gwyrdd i bawb. Mae mwy o wybodaeth am sut i gymryd rhan ar gael ar:

https://www.globalrecyclingday.com/about/

I gael gwybod sut i sefydlu cynllun ailgylchu yn y gweithle, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/sefydlu-cynllun-ailgylchu-yn-y-gweithle

# LLES: Iechyd, lles a datblygiad personol i fusnesau bach – digwyddiad ar-lein FSB 15 Mawrth 2023

Bydd cyflwyniadau diddorol gan arbenigwyr lles a chyfle i rwydweithio gyda pherchnogion busnesau bach eraill yn y digwyddiad ar-lein FSB yma a gynhelir ar 15 Mawrth 2023 (4:30pm-5:45pm). Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/425olZA

# DIGWYDDIAD: M-SParc – digwyddiadau ar y gweill

Mae gan M-SParc nifer o ddigwyddiadau mewn person ac ar-lein wedi eu trefnu ar gyfer yr wythnosau nesaf, gan gynnwys defnyddio LinkedIn a Canva ar gyfer busnes; termau ac amodau; morgeisi ar gyfer yr hunan gyflogedig a hanfodion cychwyn busnes. Darganfyddwch mwy ar dudalen Eventbrite M-SParc ar:

http://bit.ly/2XoPNC4

## CYLLID: Technolegau Trawsnewidiol Innovate UK

Mae Innovate UK yn cynnig cyfran o hyd at £20 miliwn mewn grantiau i fusnesau bach a micro mewn technolegau trawsnewidiol sydd wedi'u cofrestru yn y DU, yn ogystal â chymorth busnes teilwredig a gyflwynir gan Innovate UK EDGE. Mae mwy o wybodaeth am y gystadleuaeth, sy'n cau ar 29 Mawrth 2023, ar gael ar:

http://bit.ly/3YNMeBY

## YMGYNGHORIAD: Cynllun trwyddedu ar gyfer holl ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru

Bydd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar sefydlu cynllun trwyddedu statudol ar gyfer holl ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru yn cau ar 17 Mawrth 2023 – i gymryd rhan, ewch i:

https://www.llyw.cymru/cynllun-trwyddedu-statudol-i-ddarparwyr-llety-ymwelwyr-yng-nghymru

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru